

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Deintyddfa Glannau Dyfrdwy /
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 7 Awst 2018

Dyddiad cyhoeddi: 8 Tachwedd
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	22
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Glannau Dyfrdwy yn 55 High Street, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy, CH5 4DD, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 7 Awst 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Deintyddfa Glannau Dyfrdwy yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w chleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddi staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau a'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a chleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod systemau effeithiol ar waith i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr y practis yn gyffredinol
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys offer priodol ac roeddent yn amlwg yn lân, yn daclus ac yn drefnus.
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Llunio ac addasu rhai polisïau a gweithdrefnau allweddol
- Gofyn am farn cleifion

- Cofnodion cleifion
- Pob aelod o staff i gael hyfforddiant tân
- Cynnal amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol er mwyn nodi meysydd i'w gwella; yn benodol, rhagnodi gwrthfotigau, rhoi'r gorau i smygu a chofnodion cleifion.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa Glannau Dyfrdwy yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Sir y Fflint. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, dau hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant ac un derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Deintyddfa Glannau Dyfrdwy yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w chleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddi staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Cawsom gyfanswm o 39 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cwblhawyd y mwyafrif o'r holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd bron i dri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn ardderchog. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion ar yr holiaduron mae:

"Mae'n bractis ardderchog, rwyf wedi bod yma ers dros 32 o flynyddoedd. Mae'r staff bob amser yn ddymunol ac yn barod i helpu ac maen nhw bob amser yn ceisio trefnu apwyntiadau i mi yn ôl fy ngofynion. Ardderchog"

"Rydyn ni bob amser wedi gallu cael triniaeth frys pan fo angen"

"Mae'r staff bob amser yn gymwynasgar a chyfeillgar"

"Gwasanaeth da iawn, rwyf bob amser yn gallu cael apwyntiad yn ddigon agos i'r dyddiad/amser priodol. Rwyf bob amser wedi cael gofal da yma ac mae popeth yn cael ei esbonio'n glir i mi bob amser"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Cynnig yr opsiwn i gael apwyntiad dros y penwythnos neu gyda'r nos. Rydyn ni'n talu ar sail cynllun teuluol ond ni all y ddau fab ddod i'r practis yn ystod y dydd am eu bod yn gweithio"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd digon o wybodaeth bwrpasol ar gael am hybu iechyd deintyddol yn y dderbynfa / ardal aros, a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg. Roedd posteri a thafleuni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol ac iechyd y geg.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Nodwyd bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn yr ardal aros a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth am gost bosibl eu triniaeth.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld ger y brif fynedfa a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd gan y practis drefniadau i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd lle gallai cleifion gael sgysiau preifat â'r staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu hateb yn breifat, allan o glyw cleifion.

Roedd 9 egwyddor² y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ystafell aros, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

¹ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 - Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Gwybodaeth am gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth (cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny) a dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Yn ogystal, dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth.

Yn ogystal, roedd tystiolaeth bod cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u nodi mewn sampl o gofnodion cleifion a welwyd gennym. O ganlyniad, roedd cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros hefyd. Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion a oedd ar gael yn y dderbynfa. Roedd y daflen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Ni ddywedodd unrhyw un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, gall rhai aelodau o staff y practis gyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad.

² Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y brif fynedfa, roedd i'w glywed ar neges y peiriant ateb, ac roedd i'w weld ar wefan y practis ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Cadarnhaodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion ac roeddent yn cael eu cadw'n ddigonol. Roedd opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi a gofynnwyd i bob claf am gydsyniad i driniaeth.

Yn ddieithriad, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â'r daflen wybodaeth i gleifion.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. O ganlyniad, roedd y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg. Fodd bynnag, nodwyd bod y polisi'n cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2006 ac nid Deddf Cydraddoldeb 2010. Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd at hyn, a gytunodd i ddiwygio'r polisi ar unwaith.

Mae'r practis ar ddau lawr. Mae'r llawr daear yn gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Gallai'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gael mynediad i un ddeintyddfa ar y llawr daear, y dderbynfa a'r ardal aros.

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod cynlluniau ar y gweill i wella'r gwasanaethau a gynigir i gleifion ag anawsterau symudedd ymhellach drwy symud deintyddfa'r hylenydd o'r llawr cyntaf i'r llawr daear.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gyfer triniaeth breifat a thriniaeth y GIG. Roedd y gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn gwneud cwyn neu godi pryder wedi'u harddangos yn amlwg yn yr ardal aros. Roedd y manylion wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis systemau i gofnodi unrhyw gwynion a dderbynnir, eu monitro ac ymateb iddynt. Adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol ers i'r perchennog presennol gymryd yr awenau yn 2013.

Gwnaethom drafod system y practis i gael adborth gan gleifion. Dywedodd y practis wrthym nad oes system ffurfiol ar waith i gael barn cleifion. Gwnaethom nodi bod llyfr sylwadau / awgrymiadau ar gael yn y dderbynfa i gleifion roi sylwadau. Fodd bynnag, nid oedd blwch sylwadau ar gael i gleifion gyflwyno awgrymiadau'n ddiennw. Argymhellwn fod y practis yn datblygu holiadur i gleifion er mwyn eu galluogi i roi adborth. Gwnaethom gynghori'r practis hefyd i arddangos dadansoddiad o'r adborth yn yr ardal aros / derbynfa, er mwyn dangos i gleifion bod y practis yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis fabwysiadu system ffurfiol i gael barn cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o adborth yn cael ei arddangos fel y gall cleifion ei weld.

Sicrhau bod blwch sylwadau ar gael i gleifion gyflwyno awgrymiadau a holiaduron yn ddiennw.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a chleifion.

Roedd y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynnal archwiliadau clinigol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Ar y cyfan, roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Wrth fynd o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw rwystrau amlwg.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn neu'n gymharol lân.

Roedd toiledau ar gael at ddefnydd y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir i'r cyfleusterau ac roeddent yn ymddangos yn lân iawn.

Gwelsom fod profion ar ddyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn y practis yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, nodwyd mai ym mis Ebrill 2016 y cynhaliwyd y profion hyn. Dywedwyd wrth y prif ddeintydd y byddai'n arfer da ystyried ailbrofi'r holl ddyfeisiau bach

erbyn diwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio o hyd.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod yr offer hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd allanfeydd argyfwng i'w gweld, ac roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn y practis. Cynhaliwyd ymarferion tân rheolaidd a oedd wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd unrhyw aelod o staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, yn ogystal ag asesiadau risg, a oedd yn gyfredol ar gyfer sicrhau bod y safle yn addas i'r diben. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi na gweithdrefn a oedd yn nodi'r trefniadau wrth gefn i'w dilyn mewn argyfwng, er mwyn sicrhau bod modd parhau i redeg y practis deintyddol yn ddiogel.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol/dadebru brys diweddaraf. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Pob aelod o staff i gael hyfforddiant tân.

Llunio polisi cynhwysfawr yn nodi'r trefniadau wrth gefn i'w dilyn mewn argyfwng yn y practis.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05³. Roedd y cyfleuster yn lân, yn drefnus ac yn glir rhag rhwystrau ac roedd yn cynnwys offer priodol.

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwnaethom ystyried y trefniadau dihalogi ac roedd y broses a welsom yn foddhaol. Dangosodd y staff y broses ddihalogi inni a gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob aelod o staff clinigol wedi cael hyfforddiant dihalogi. Gwelsom y canlynol:

- Sinc bwrpasol i olchi dwylo
- Roedd yr offer a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offerynnau mewn cyflwr da
- Roedd offerynnau'n cael eu storio'n briodol a'u dyddio
- Roedd offer diogelu personol ar gael i amddiffyn staff rhag anaf a/neu haint.
- Roedd cloeon a labeli cywir ar gynwysyddion storio offerynnau.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Deoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol er mwyn gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr cofnod ar gael ar gyfer pob awtoclaf⁴ a gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd gan y practis system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Fodd bynnag, gwelsom fod y bagiau dynodedig anghywir yn cael eu defnyddio ym mhob ardal glinigol. Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd at hyn, a drefnodd fod y bagiau cywir yn cael eu gosod yn eu lle ar unwaith yn ystod ein hymweliad. Gwelsom fod yr holl wastraff arall wedi'i ddioli a'i osod yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir. Gwnaethom argymhell y dylai bin gwastraff fferyllol gael ei

⁴ Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio ager dirlawn pwysedd uchel

ychwanegu at y contract gwastraff er mwyn gwaredu meddyginiaethau nas defnyddir.

Gwelsom fod gan y practis becyn gollyngiadau mercwri. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi ar gyfer trin a thrafod mercwri.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol. Fodd bynnag, nodwyd mai polisi a gweithdrefnau cyffredinol oedd y rhain a bod angen eu haddasu i'r practis.

Roedd gan y practis drefniadau priodol â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio ag unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog. Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag firysau a gludir yn y gwaed. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y practis yn arddangos y cyfarwyddiadau protocol i'w dilyn ar gyfer anafiadau nodwydd a siartiau llif ar amlygiad i firysau a gludir yn y gwaed ym mhob ardal glinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Bin gwastraff fferyllol ar gyfer meddyginiaethau nas defnyddir.

Datblygu polisi ar gyfer trin a thrafod mercwri.

Addasu'r polisi rheoli heintiau a gweithdrefnau perthnasol i'r practis.

Arddangos y cyfarwyddiadau protocol i'w dilyn ar gyfer anafiadau nodwydd a siartiau llif ar amlygiad i firysau a gludir yn y gwaed ym mhob ardal glinigol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol ymhlith cleifion. Roedd yr holl staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) diweddaraf ac roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn digwydd yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r

cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a luniwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).

Nid oedd masgiau wyneb clir maint '0' a '3' ar gael ar gyfer y bag hunan-chwyddo symudol ym mhecyn argyfwng y practis. Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r pecyn argyfwng ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Roedd gan y practis bolisi yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel. Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisïau diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y polisïau'n cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y practis wedi penodi aelod o staff i arwain materion diogelu, sy'n gyfrifol am sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei ddilyn ac sy'n gallu rhoi cyngor ac arweiniad i staff ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda'r prif ddeintydd a'u bod yn hyderus y byddai'n ymateb i'r pryderon hynny.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a

Gwahardd⁵ (DBS). Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o staff perthnasol yn dal gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y deintyddfeydd a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol i sicrhau diogelwch cleifion. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Roedd yr holl offer radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-x) yn ddiogel ac roedd y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau ansawdd y delweddau pelydr-x. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Nid oedd gan y practis raglen ar waith i gynnal amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol er mwyn nodi meysydd i'w gwella. Gwelsom nad oedd unrhyw archwiliadau wedi'u cynnal mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau, rhoi'r gorau i smygu na chofnodion cleifion. Gwnaethom argymhell bod y practis yn rhoi rhaglen o archwiliadau ar waith drwy gydol y flwyddyn.

Gwelsom hefyd nad oedd gan y practis bolisi ar waith mewn perthynas â gofyn am gydsyniad cleifion i gymryd rhan mewn ymchwil fel rhan o weithgareddau gwella ansawdd.

⁵ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol er mwyn nodi meysydd i'w gwella; yn benodol, rhagnodi gwrthfotigau, rhoi'r gorau i smygu a chofnodion cleifion.

Datblygu polisi a gweithdrefn ar gyfer gofyn am gydsyniad cleifion i gymryd rhan mewn ymchwil.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Wrth drafod â staff, dywedwyd wrthym fod staff clinigol wedi cymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i gleifion.

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod gan y practis gynlluniau ar waith i hunanasesu gan ddefnyddio adnodd datblygu Denplan Excel⁶.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth gan Ddeoniaeth Cymru hefyd. Mae'r Matrics Aeddfedrwydd yn adnodd datblygu tîm ar gyfer practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau, ansawdd a diogelwch, gofynion deddfwriaethol a sut mae'n gweithio.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw o bob ffeil electronig yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gudd. Roedd polisi diogelu data ar waith er mwyn hysbysu staff o'r hyn sy'n ofynnol iddynt ei wneud.

Cadw cofnodion

Cafodd sampl o gofnodion cleifion pob deintydd ei hadolygu. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion digonol, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

⁶ Rhaglen llywodraethu clinigol gynhwysfawr yw Denplan Excel

Fodd bynnag, gwelsom rai bylchau ac anghysondebau rhwng deintyddion o ran y manylion a gofnodwyd mewn rhai o gofnodion unigol y cleifion a gellid gwella hyn.

Roedd y broses o gofnodi cyfiawnhad dros gynnal profion pelydr-x a chofnodi'r profion yn anghyson. Gwelsom hefyd fod asesiadau risg ar goll mewn perthynas â cheudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg. Gwnaethom dynnu sylw'r prif ddeintydd at ein pryderon ynghylch y bylchau a'r asesiadau coll ac aeth ati ar unwaith i gyflwyno templed safonol i'r practis cyfan ei ddefnyddio er mwyn cofnodi archwiliadau cleifion. Bydd y templed newydd yn sicrhau bod y practis i gyd yn cofnodi manylion cyson.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd pob ffurflen hanes meddygol wedi'i diweddarau, ei llofnodi gan y cleifion a'i chydlofnodi gan y deintyddion. Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd at hyn a ddywedodd wrthym fod ffurflenni hanes meddygol yn cael eu cwblhau a'u diweddarau gan ddefnyddio clinipad⁷ y practis ond bod signal Wi-Fi gwael weithiau'n gallu atal defnydd rheolaidd.

Gwnaethom hefyd archwilio sampl o gofnodion cleifion y ddau hylenydd a gwelsom dystiolaeth dda bod cofnodion manwl yn cael eu cadw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod ffurflenni hanes meddygol pob claf yn cael eu diweddarau a'u llofnodi adeg pob triniaeth a'u cydlofnodi gan y deintyddion.

⁷ Mae'r clinipad yn galluogi cleifion i gwblhau a llofnodi ffurflenni'n electronig yn y practis, gan ddefnyddio dyfeisiau symudol fel iPads. Mae hyn yn golygu nad oes angen ffurflenni papur.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n fedrus. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cydweithio'n dda. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, rhai cyffredinol oedd y rhain ac roedd angen eu haddasu i'r practis. Gwelsom hefyd nad oedd pob polisi mewn lle ac nad oeddent yn cynnwys llofnodion y staff na dyddiad adolygu ac nad oedd system rheoli fersiynau ar waith

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Prif ddeintydd / perchennog Deintyddfa Glannau Dyfrdwy yw'r rheolwr cofrestredig⁸ a'r unigolyn cyfrifol enwebedig⁹.

⁸ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

⁹ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017)

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Y prif ddeintydd oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol â'r prif ddeintydd ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers peth amser, roedd ganddynt berthynas dda â'i gilydd.

Gwelsom fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd system rheoli fersiynau ar waith mewn perthynas â'r polisiâu a'r gweithdrefnau ac nad oeddent yn cynnwys dyddiad adolygu na llofnod staff i ddangos eu bod wedi cael eu darllen a'u deall. Gwelsom hefyd fod y polisiâu'n gyffredinol. Gwnaethom argymhell bod y prif ddeintydd yn adolygu'r polisiâu a'r gweithdrefnau gan sicrhau ei fod yn eu haddasu i'r practis. Gwelsom hefyd nad oedd y polisiâu a'r gweithdrefnau canlynol ar gael yn y practis:

- Recriwtio, sefydlu a chadw cyflogeion, eu hamodau cyflogaeth a'u gofynion hyfforddiant,
- Sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel gan gynnwys gwiriadau sy'n briodol i'r gwaith y bydd y staff yn ei wneud,
- Pan gaiff gwaith ymchwil ei gynnal mewn practis deintyddol preifat, sicrhau y caiff ei gynnal gyda chydsyniad unrhyw glaf neu gleifion dan sylw, ei fod yn briodol i'r practis dan sylw ac y caiff ei gynnal yn unol ag unrhyw ganllawiau cyfredol ac awdurdodol cyhoeddus ar gynnal prosiectau ymchwil.

Rhoddyd copi o'r Datganiad o Ddiben i ni a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 i raddau helaeth. Gwelsom nad oedd y Datganiad o Ddiben yn cynnwys manylion y trefniadau ar gyfer parchu preifatrwydd ac urddas cleifion na'r dyddiad y cafodd y Datganiad ei ysgrifennu. Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd at hyn, a gytunodd i ddiweddarau'r ddogfen ar unwaith.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Roedd tystysgrif cofrestru AGIC i'w gweld yn glir wrth ymyl y dderbynfa. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Datblygu'r polisïau a'r gweithdrefnau canlynol:

- Recriwtio, sefydlu a chadw cyflogeion, eu hamodau cyflogaeth a'u gofynion hyfforddiant.
- Sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel gan gynnwys gwiriadau sy'n briodol i'r gwaith y bydd y staff yn ei wneud.
- Pan gaiff gwaith ymchwil ei gynnal mewn practis deintyddol preifat, sicrhau y caiff ei gynnal gyda chydysniad unrhyw glaf neu gleifion dan sylw, ei fod yn briodol i'r practis dan sylw ac y caiff ei gynnal yn unol ag unrhyw ganllawiau cyfredol ac awdurdodol cyhoeddedig ar gynnal prosiectau ymchwil.

Sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn cael eu haddasu i'r practis, eu hadolygu bob tair blynedd, eu bod yn cynnwys dyddiad adolygu a llofnod staff a bod system rheoli fersiynau ar waith.

Sicrhau bod y Datganiad o Ddiben yn cynnwys manylion y trefniadau i'w dilyn ar gyfer parchu preifatrwydd ac urddas cleifion a'r dyddiad y cafodd y Datganiad ei ysgrifennu.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Nodwyd gennym fod gan bob aelod o'r staff contract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Gwelsom hefyd fod gan y practis raglen sefydlu, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u dogfennu.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Fodd bynnag, nid oedd gan y practis fatrics hyfforddiant. Gwnaethom gynghori'r prif ddeintydd i lunio matrices hyfforddiant er mwyn monitro lefelau hyfforddiant a sgiliau o fewn y practis a chytunodd y prif ddeintydd i wneud hynny.

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a gwelsom fod cofnodion manwl yn cael eu cadw. Os na all unrhyw aelod o staff

fod yn bresennol, mae'r Prif Ddeintydd yn tynnu ei sylw at y cofnodion. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r materion a'r trafodaethau a gynhelir mewn perthynas â'r practis.

Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd masgiau wyneb clir maint '0' a '3' ar gael ar gyfer y bag hunan-chwyddo symudol ym mhecyn argyfwng y practis.	Roedd hyn yn golygu y byddai oedolion a phlant mewn perygl pe bai argyfwng.	Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd at hyn, a drefnodd i'r eitemau gael eu prynu ar unwaith.	Archebodd y prif ddeintydd yr eitemau ar unwaith ar ddiwrnod ein harolygiad i'w dosbarthu drannoeth.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Deintyddfa Glannau Dyfrdwy

Dyddiad arolygu: 7 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Deintyddfa Glannau Dyfrdwy

Dyddiad arolygu: 7 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
<p>Dylai'r practis fabwysiadu system ffurfiol i gael barn cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o adborth yn cael ei arddangos fel y gall cleifion ei weld.</p> <p>Sicrhau bod blwch sylwadau ar gael i gleifion gyflwyno awgrymiadau a holiaduron yn ddiennw.</p>	<p>6.3 Gwranddo a Dysgu o adborth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (PDR) 16 (2 c, d)</p>	<p>Caiff y cam gweithredu hwn ei gwblhau erbyn 30/11/18. Y person cyfrifol yw J.Brandon.</p>		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Llunio polisi cynhwysfawr yn nodi'r</p>	<p>2.1 Rheoli risg a</p>	<p>Lluniwyd polisi gan J.Brandon ar</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
trefniadau wrth gefn i'w dilyn mewn argyfwng yn y practis.	hybu iechyd a diogelwch PDR 8 (o)	13/9/18.		
Pob aelod o staff i gael hyfforddiant tân.		Bydd pob aelod o staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân ar-lein erbyn 30/11/18.		
Bin gwastraff fferyllol ar gyfer meddyginiaethau nas defnyddir.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi PDR 8 (m) WHTM 01-05	Caiff ei ychwanegu at y contract adeg y casgliad nesaf.		
Datblygu polisi ar gyfer trin a thrafod mercwri.		Cwblhawyd gan J.Brandon ar 13/9/18.		
Addasu'r polisi rheoli heintiau a gweithdrefnau perthnasol i'r practis.		Ailysgrifennwyd ar 14/9/18.		
Arddangos y cyfarwyddiadau protocol i'w dilyn ar gyfer anafiadau nodwydd a siartiau llif ar amlygiad i firsau a gludir yn y gwaed ym mhob ardal glinigol.		Caiff ei gwblhau erbyn 30/9/18 gan J.Brandon		
Cynnal amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol er mwyn nodi meysydd i'w gwella; yn benodol, rhagnodi gwrthfotigau, rhoi'r	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; PDR 16 (2)	Caiff ei gwblhau erbyn 30/11/19 gan J.Brandon Rhoi'r gorau i smygu gan FR Spiller		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gorau i smygu a chofnodion cleifion.				
Datblygu polisi a gweithdrefn ar gyfer gofyn am gydsyniad cleifion i gymryd rhan mewn ymchwil.		Cwblhawyd gan J.Brandon ar 14/9/18		
Sicrhau bod ffurflenni hanes meddygol pob claf yn cael eu diweddarau a'u llofnodi adeg pob triniaeth a'u cydlofnodi gan y deintyddion.	3.5 Cadw cofnodion; PDR 20 (1)	Mae'r broses hon yn un barhaus ac mae eisoes wedi dechrau. J.Brandon		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Datblygu'r polisiâu a'r gweithdrefnau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Recriwtio, sefydlu a chadw cyflogeion, eu hamodau cyflogaeth a'u gofynion hyfforddiant (h), • Sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel gan gynnwys gwiriadau sy'n briodol i'r gwaith y bydd y staff yn 	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; PDR 8 (h), (i) a (j)	Cafodd polisi sy'n gwarantu arfer presennol ei ysgrifennu gan J.Brandon ar 15/8/18 Cwblhawyd gan J.Brandon 15/9/18		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>ei wneud (i),</p> <ul style="list-style-type: none"> Pan gaiff gwaith ymchwil ei gynnal mewn practis deintyddol preifat, sicrhau y caiff ei gynnal gyda chydsyniad unrhyw glaf neu gleifion dan sylw, ei fod yn briodol i'r practis dan sylw ac y caiff ei gynnal yn unol ag unrhyw ganllawiau cyfredol ac awdurdodol cyhoeddedig ar gynnal prosiectau ymchwil (j) <p>Sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn cael eu haddasu i'r practis, eu hadolygu bob tair blynedd, eu bod yn cynnwys dyddiad adolygu a llofnod staff a bod system rheoli fersiynau ar waith.</p> <p>Sicrhau bod y Datganiad o Ddiben yn cynnwys manylion y trefniadau i'w dilyn ar gyfer parchu preifatrwydd ac urddas cleifion a'r dyddiad y cafodd y Datganiad ei ysgrifennu.</p>		<p>Mae polisi wedi cael ei lunio rhag ofn y bydd y practis yn gwneud gwaith ymchwil.</p> <p>I'w gwblhau gan J.Brandon a'r staff erbyn 30/11/18</p> <p>Diweddarwyd y Datganiad o Ddiben gan J.Brandon 15/9/18</p>		

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): J.Brandon

Teitl swydd: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 20/9/18